# Cyngor Cymuned Mawddwy

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost: *Cyngormawddwy@outlook.com***

23ain Chwefror 2026

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY** ***Nos Fercher y 4ydd o Fawrth am 7.30pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

## AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21ain Ionawr 2026 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) **Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd.**

**b) Dyfodol Eglwys Llanymawddwy**.

c) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – derbyn y diweddaraf.

d**) Safle y gofgolofn yn Minllyn.**

e) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyried y diweddaraf. Nodi'r Ffurflen Cwbwlhau prosiect a gwbwlhawyd gan y Clerc (danfonwyd drafft i bawb am sylwadau 19.02.26) Hefyd nodi gohebiaeth mewnol y Cyngor ynglyn a'r cynllun.

f) Coed ger 1 Bryn Dyfi, Dinas Mawddwy – nodi'r diweddaraf

**5. Materion Cynllunio**

**NP5/74/5D –** Amnewid ffenestri a drysau dianc mewn argyfwng allanol newydd, gosod pwmp gwres ffynhonnell aur, a golau allanol yn **Ormiston Forge Mountain Centre, Dinas Mawddwy SY20 9LU -** *wedi ei ddosbarthu eisoes*

Ymgynghoriad cyn cais – Safle mast ffon symudol yn **Pennantigi Uchaf, Dinas Mawddwy.** *wedi ei ddosbarthu eisoes.*

6.**Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon banc – nodi balansau.

- Cadarnhau penodiad Archwilydd mewnol ar gyfer 2025-26.
- Cadarnhau hawlio treuliau Cynghorwyr 2025-26

b) Anfonebau i'w talu.

- E W Owen a'i Chwmni – gwaith PAYE/P60
- Cyflog chwarter olaf y Clerc a HMRC. Hefyd costau am y flwyddyn.

c) Ceisiadau am arian.

- Cylch Meithrin Dolybont (yn dilyn cais am fantolen yn y cyfarfod diwethaf)
- Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirion

**7.Gohebiaeth**

**a)** Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru

***b)*** Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais – nodi'r gohebiaeth diweddaraf. – *wedi ei ddanfon allan.*

***c)*** Cynllun Datblygu Lleol Eryri – galw am safleoedd posib - *wedi ei ddanfon allan.*

8. **Unrhyw fater arall**